



Creu hysbyseb swydd y Swyddfa Dywydd

1 Dywedwch wrth bobl ifanc y bydd rhaid iddynt ddychmygu eu bod yn gweithio i'r Swyddfa Dywydd a bod angen iddynt logi rhywun yn eu tîm. Dywedwch wrthynt fod rhaid iddynt ddychmygu eu bod yn recriwtio ar gyfer rôl felly mae angen iddynt greu hysbyseb swydd gyffrous i ddenu ymgeiswyr medrus a llwyddiannus.

2 Rhannwch y grŵp yn dimau llai a dywedwch wrthynt y byddant yn edrych ar ychydig o rolau yn y Swyddfa Dywydd, a bydd angen iddynt ddewis un y mae angen iddynt ei hysbysebu. Gallant ddewis un o'r rolau isod (cliciwch ar y dolenni isod am ragor o wybodaeth am bob rôl):

- **Prentis cyfathrebu**
- **Datblygwr Meddalwedd Swyddfa**
- **Ymarferydd TG Arbenigol**

Gan ddibynnu ar lefel y grwpiau rydych yn gweithio gyda nhw a'r amser sydd ar gael, gallech ofyn i bobl ifanc wneud eu hymchwil eu hunain a dewis rôl eu hunain.



20–25 munud



Gwaith grŵp



Templed hysbyseb swydd

3 Anogwch nhw gyda'r cwestiynau isod i'w helpu gyda'r dasg:

- Beth yw teitl y swydd?
- Beth yw rolau a chyfrifoldebau'r swydd hon?
- Ble mae'r swydd wedi'i lleoli? A all y lleoliad fod yn hyblyg?
- Pa gymwysterau a phrofiad sydd eu hangen ar gyfer y rôl hon?
- Beth sydd angen i ymgeiswyr ei wneud i wneud cais am y rôl hon? H.y. anfon llythyr eglurhaol? CV?

Gallant ddefnyddio'r templed hysbyseb swydd (ar dudalen 3) a'i lenwi fel grŵp.

4 Dewch â'r grwpiau yn ôl at ei gilydd a dod i'r casgliad bod amrywiaeth o rolau cyffrous yn y Swyddfa Dywydd a bod angen llawer o wahanol fathau o bersonoliaethau a setiau sgiliau ar gyfer y rhain.

Estyniad dewisol

Fel estyniad, anogwch y grŵp i feddwl am sut i ddefnyddio'r wybodaeth y maent wedi'i chasglu yn eu gwaith i ddylunio hysbyseb swydd sy'n fwy deniadol yn weledol ac sy'n dal y llygad. Gallent greu poster, post cyfryngau cymdeithasol, neu ffilm fer. Gallent feddwl am ychwanegu rhai lluniau, neu efallai feddwl am slogan bachog. Os bydd gennych amser, fe allech gael pawb i gyflwyno eu hysbysebion swyddi creadigol i weddill y grŵp.



5 munud



Gwaith grŵp



Templed hysbyseb swydd

Templed hysbyseb swydd

Teitl y swydd:

Rolau a chyfrifoldebau:

Cymwysterau, profiad a sgiliau:

Sut i wneud cais: